PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 17 | Ebrill 25, 2024 | 50c.



# Sefydlu gweinidog a gofalaeth newydd



Roedd nos Wener, 12 Ebrill 2024, yn noson arbennig iawn yng nghapel Heol Awst, Caerfyrddin.

Yn ogystal â bod yn oedfa sefydlu'r Parchg Beti-Wyn James yn weinidog ar eglwysi Elim Ffynnon-ddrain a Heol Awst, crëwyd gofalaeth newydd, sef gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, wrth uno gofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyda gofalaeth Heol Awst ac Elim. Gan ei bod yn noson bwysig, nid yn unig i'r eglwysi ac i Beti-Wyn, ond i dref Caerfyrddin hefyd, pleser oedd cael presenoldeb maer a maeres y dref, ac Uchel Siryf Dyfed a'i chymar, y mae Beti-Wyn yn gaplan iddynt.

### Yr oedfa

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg Tom Defis, cadeirydd gofalaeth Elim a Heol Awst. Wrth groesawu pawb, mynegodd y golled a gafwyd wrth inni gofio am y diweddar Roland Jeremy, ysgrifennydd Elim, a fu'n rhan o'r trafodaethau, ac y claddwyd ei lwch yn gynharach yn y dydd. Organydd y noson oedd John Evans, un o gyfeilyddion Elim. Y Parchg Catrin Ann, Pentre Morgan, oedd yn gyfrifol am yr Alwad i Addoli, a'r Parchg Sian Elin Thomas, Crymych, a ddarllenodd o'r Gair cyn i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, Clydach offrymu gair o weddi. Joan Thomas, cofnodydd pwyllgor diaconiaid gofalaeth Elim a Heol Awst, a roddodd hanes yr alwad gan sôn am gyfanrif yr aelodaeth sydd bellach dros 500, a diolch i'r pregethwyr a fu mor barod i dderbyn ein gwahoddiad i ddod atom i gynnal oedfaon pan oeddem yn ddiweinidog.

### Y sefydlu

Yn gyfrifol am y sefydlu, y rhan hanfodol o'r oedfa, oedd Llywydd y noson. Wrth i Beti-Wyn ymateb diolchodd i bawb am bob cymorth, ac am y fraint o gael arwain eglwysi'r Priordy, Cana, a Bancyfelin, am ddwy flynedd ar hugain. Ymhyfrydai bod yr aelodau



wedi caniatáu iddi ddod i nabod eglwysi'r ardal drwy eu gwasanaethu yn ôl y galw dros y blynyddoedd diwethaf a agorodd y drws at drafodaethau. Ffrwyth y trafodaethau hynny oedd yr achlysur arbennig hwn o sefydlu gofalaeth newydd.

### Cyflwyno

Cyflwynwyd yr Emyn Urddo o waith y diweddar Barchg O. T. Evans gan Natalie Morgan, Aberteifi, cyn i Sulwyn Thomas, cadeirydd gofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyflwyno Beti-Wyn ar ran yr ofalaeth honno. Soniodd am y cydweithio a fu gynt ar wahanol adegau, a sut y datblygodd y berthynas ymhellach, gan arwain yn ddigon naturiol at lunio gofalaeth newydd. Estynnodd Bet Jones, Elim, groeso ar gân ar ran Elim a Heol Awst, gan gyfeirio, mewn arddull hwyliog, at y gwahanol agweddau o fywyd Beti-Wyn. Cafwyd eitem ddoniol ar ffurf rap gan blant bach ysgol Sul Elim, ac ymunodd Beti-Wyn yn yr hwyl gan rapio wrth gyflwyno rhodd fechan iddynt i gyd. Estynnwyd deheulaw cymdeithas i Beti-Wyn gan ysgrifenyddion y pum eglwys, cyn iddynt gyfarch ei gilydd fel arwydd bod cwlwm newydd yn dechrau rhwng y bum eglwys. Y Parchg Guto Llywelyn a gyflwynodd weddi fer dros yr ofalaeth newydd.

### Cyfarchion

Yn dilyn hyn cafwyd cyfarchion gan Jean Lewis, is-gadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Soniodd mor braf yw gweld eglwysi yn gwahodd gweinidog newydd atynt, gan obeithio y bydd pawb yn ofalgar ohoni. Wrth i'r Parchg Emyr Williams, cadeirydd Cwrdd Dosbarth Myrddin, estyn cyfarchion ar ran y Cwrdd Dosbarth, cyfeiriodd yn ysgafn at y chwythwm o wynt a ddaeth i'w plith bron i chwarter canrif yn ôl, ac un a fu'n weithgar gyda hwy byth oddi ar hynny.

*parhad ar dudalen 2*

# Sefydlu gweinidog a gofalaeth Newydd – parhad

### Agor y Gair

Pregethwyd gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul, ar adnod 20 o'r drydedd bennod o Lythyr Paul at y Philipiaid: 'Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ac oddi yno hefyd yr ydym yn disgwyl Gwaredwr, sef yr Arglwydd Iesu Grist.' Pwysleisiai Paul mai Iesu Grist yw'r Gwaredwr, y gwerinwr o Nasareth, a groeshoeliwyd, ac a atgyfododd ar y trydydd dydd. I ddwyn noson hanesyddol a llawen i ben, gyda phawb yn llawn brwdfrydedd wrth edrych tua'r dyfodol, canwyd yr emyn olaf, a gwneud casgliad tuag at apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymorth Cristnogol.

### Swpera

Yna aeth y gynulleidfa o tua dau gant i'r festri i fwynhau swper helaeth, cymdeithasu, a gwylio Beti-Wyn yn torri'r gacen hardd, bwrpasol, o waith Nia Evans, Elim. Yn rhan o addurniadau'r gacen roedd lluniau pum capel yr ofalaeth, y car coch a'r ffôn bach, gyda hi ei hunan, ei gliniadur, a'r Beibl agored, ar y top.

Bu'r noson yn gychwyn ardderchog i'r bennod newydd hon yn hanes y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yng Nghaerfyrddin a Bancyfelin. Diolchwn i Dduw am y cyfle hwn a daeth i'n rhan a gweddïwn am Ei fendith ar waith yr ofalaeth.

**Joan Thomas**

# Chwe mis

Wn i ddim be ydi'r gair Cymraeg amdano. Beth bynnag ydyw, mae'n alaethus o drist mai am *deconfliction* y mae cynifer o lywodraethau a'u harweinwyr yn dal i sôn yng nghyd-destun y rhyfela sy'n ddim llai na hil-laddiad yn Gaza. Yn fras, *deconfliction* ydi'r cyd-drafod a'r cydweithio rhwng byddinoedd ac asiantaethau dyngarol er mwyn gwarchod pobl ddiniwed ac 'osgoi damweiniau' ar faes y gad. Y saith gweithiwr dyngarol a laddwyd ddydd Llun y Pasg oedd y diweddaraf o oddeutu 200 a laddwyd yn Gaza ers mis Hydref. Credir bod dros 40,000 o bobl wedi eu lladd yno; oddeutu 15,000 ohonynt yn blant. Mae heintiau a newyn yn bygwth lladd miloedd lawer eto, a rhai o'r asiantaethau a fu'n darparu cymorth wedi gorfod atal eu gwaith.




### Cadoediad

Ac mae pobl yn dal i drafod *deconfliction* yn hytrach na galw am ddiwedd i'r saethu a'r bomio a'r lladd! A llywodraethau, fel un San Steffan, yn dal i anfon arfau i Israel – gan fynegi gofid yr un pryd am yr holl ladd y mae'r fath arfau'n ei achosi! Ers dechrau Hydref, mae eglwysi ac enwadau, ynghyd ag eraill o wahanol ffydd a chred, wedi codi llef dros heddwch a therfyn i'r lladd. Mae'r angen i ddal i wneud hynny'n cynyddu. Cyfrannodd enwadau ac eglwysi hefyd, ynghyd â'u haelodau unigol, arian at waith elusennau a fu'n anfon cymorth i Gaza. A chynyddu hefyd y mae'r angen i ddal i wneud hynny.

### Anghymesur

Ar 7 Ebrill, roedd hi yn chwe mis union ers yr ymosodiad dychrynllyd ar Israel gan Hamas a arweiniodd at y dial anghymesur ar Gaza a'i phobl nad oes gan lywodraeth Israel eto'r bwriad lleiaf i ddwyn diwedd buan iddo. Chwe mis o ddial a lladd a meithrin casineb a fydd yn parhau dros genedlaethau. Chwe mis hefyd o ddioddef ac ofni ac anobeithio. A gwaetha'r modd, o du cynifer o arweinwyr gwledydd byd, chwe mis o fudandod a chefnogaeth a chywilydd.

### Gweddi

Ac o ran ein heglwysi? Diolch am bawb a fu'n ein hatgoffa fod codi llais dros y gorthrymedig, a'u cynorthwyo, yn rhan o'n cyfrifoldeb fel dilynwyr i Iesu Grist. Diolch hefyd am bawb a fu'n ein hannog i wneud hynny. Ond ynghyd â'r codi llais a'r cyfrannu, a gafwyd chwe mis o weddi? Mor rhwydd y medrwn ddiffygio yn ein gweddïau dros eraill, ymhell ac agos mewn amrywiol amgylchiadau. Wrth gyffesu heddiw y gallasem fod wedi gwneud llawer mwy, ymrown o'r newydd – yn nerth yr Arglwydd – i wneud yn llawer gwell.

**John Pritchard**

[*Allan o* Llais Bro Aled, *Dydd Sul, 7 Ebrill 2024*]

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2024

**Prifysgol De Cymru, Trefforest**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

# Derbyn aelodau – Capel Hermon, Manordeilo



Ar bnawn Sul, 17 Mawrth yn ystod gwasanaeth gymun yng nghapel Hermon, Manordeilo derbyniwyd pum aelod ifanc newydd sef Ifan Williams, Jasmine Emerick, Lois Williams, Mared Thomas a Gwydion Thomas. Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Beti-Wyn James am fod yng ngofal y gwasanaeth.

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 25 2024 RHIF 165

# Wythnos Cymorth Cristnogol 2024 – 12–18 Mai

## Saith diwrnod, cymaint o ffyrdd i wneud gwahaniaeth

Bob blwyddyn, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, daw unigolion ac eglwysi Cymru ynghyd i godi arian, gweithredu a gweddïo dros ein cymdogion byd-eang, mewn dathliad o'n gobaith am fyd mwy teg a chyfiawn. Mae pob ymdrech yn cefnogi prosiectau datblygu yng nghymunedau mwyaf bregus y byd.

Gwyddom oll fod yna saith diwrnod mewn wythnos … **Saith diwrnod, cymaint o ffyrdd i wneud gwahaniaeth**, felly! Cyngerdd yng Nghaerffili, efallai, 'holy hike' ym Mhorthcawl, te prynhawn yn Nhyddewi, a chinio cawl yn y Fflint.Bydd nifer yn cydio yn yr her newydd, sef '70 cilometr ym mis Mai' (#70KInMay), mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys Archesgob Andrew ac aelodau tîm Cymorth Cristnogol Cymru.

Mae apêl eleni – **sy'n digwydd rhwng 12 a 18 Mai** – yn canolbwyntio ar waith Cymorth Cristnogol yn Burundi, un o'r gwledydd mwyaf o ran ei phoblogaeth ac un o'r tlotaf yn Affrica. Er ei bod yn dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth, mae'n un o'r gwledydd lleiaf parod i daclo effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys sychder, llifogydd a thirlithriadau. Mae'r argyfwng costau byw byd-eang wedi dwysáu'r heriau; mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi a thros hanner y plant â diffyg maeth cronig.

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio yn Burundi ers 1995 pan ddechreuodd gynnig cymorth dyngarol am y tro cyntaf i bobl oedd wedi goroesi'r rhyfel cartref. Nawr, gyda'n partneriaid lleol, rydym yn helpu i sefydlu Cymdeithasau Cynilo a Benthyg Cymunedol. Mae'r grwpiau hyn, sy'n cael eu harwain gan y gymuned, yn golygu y gall pobl gynilo a benthyg arian. Yna, mae'n bosibl cael busnesau bach sy'n cynnig incwm dibynadwy ac amrywiol fel y gall teuluoedd fwyta'n rheolaidd, cael meddyginiaeth pan mae ei hangen arnynt, ac adeiladu cartrefi mwy diogel.



Bydd eglwysi Porthcawl yn cynnal Pererindod Porthcawl, neu 'holy hike' eto eleni – diwrnod o gerdded o gapel i gapel, gyda llawer o gymdeithasu, myfyrio a hwyl ar hyd y ffordd!



Meddai Aline Nibogora, 'Mae traddodiadau yn bwysig inni, ac mae gennym amser penodol i weddïo. Mae'n gyfle i sgwrsio gyda Duw, oherwydd rydyn ni i gyd yn dal yn fyw, diolch i ras Duw.' (Llun: Armstrong Too)

Mae Aline Nibogora yn 35 mlwydd oed ac yn gadeirydd y Gymdeithas Cynilo a Benthyg yn ei phentref. Mae'r gymdeithas yn cefnogi tua 25 o deuluoedd mewn pentref gwledig yn nhalaith Makamba. Cafodd Aline ei cham-drin gan ei gŵr, ei gorfodi i symud o'i chartref, a'i gwahanu oddi wrth ei phlant. Heb le i fyw a hithau'n poeni'n ddyddiol am les ei phlant, gwthiwyd Aline at ymylon eithaf tlodi.

Bu newid mawr ym mywyd Aline pan ymunodd â gweithdy cymunedol dan arweiniad hyfforddwyr a ariannwyd gan

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Wythnos Cymorth Cristnogol 2024 –*
*12–18 Mai*
*Saith diwrnod, cymaint o ffyrdd*
*i wneud gwahaniaeth*
*(parhad o dudalen 1)*

Gymorth Cristnogol. Llwyddodd Aline i sicrhau benthyciad i sefydlu busnes a dechrau gwerthu afocados a chnau mwnci.

Roedd busnes Aline yn llwyddiannus, ac o'r diwedd fe lwyddodd i sicrhau bod ei thri mab hynaf yn dod yn ôl i fyw gyda hi. Gall Aline bellach fforddio bwyd iddi hi ei hunan a'i theulu. Llwyddodd hefyd i brynu beic er mwyn gallu cludo'i nwyddau. Ac mae hi wedi prynu paneli solar fel y gall ei phlant ddefnyddio golau fel cymorth i astudio. Meddai Aline: 'Rydyn ni'n gweddïo gyda'n gilydd gan ein bod yn dal yn fyw, diolch i ras Duw ... Fe fuon ni drwy amser caled, ond bellach rydyn ni'n gallu gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.' Dros y pum mlynedd nesaf, mae hi'n gobeithio ehangu ei busnes a phrynu melin.

Ar ben hyn, fel cadeirydd ei chymdeithas mae Aline yn defnyddio'i phrofiad i helpu i drawsnewid bywydau teuluoedd eraill sydd am wneud yr un peth ac adeiladu dyfodol mwy disglair gyda'i gilydd. Dywed Aline, 'Os oes gan unrhyw un broblem, fe wnawn ni eu helpu nhw i gael atebion ... mae'r aelodau'n diolch imi am yr hyfforddiant a'r effaith gadarnhaol mae hyn wedi'i gael ar eu bywydau ... Yma yn Burundi, ystyrir cymydog fel aelod o'r teulu.'

Bydd yr arian a godir yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol yn helpu partneriaid y sefydliad i rymuso cymunedau fel un Aline i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol a chynaliadwy o ddod allan o dlodi. Trwy waith Cymorth Cristnogol a'r Wythnos arbennig ym mis Mai, rydym yn rhan o gymuned fawr sydd yn gwthio yn erbyn anghyfiawnder tlodi – mewn undod ag Aline.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol felly'n cynnig saith diwrnod a sawl ffordd o wneud gwahaniaeth. Mae yna amrywiaeth o adnoddau arbennig ar gael i'w harchebu a'u lawrlwytho, gan gynnwys: amlenni coch (wrth gwrs!), defosiwn dyddiol, posteri, trefn gwasanaeth, gweddïau, addoliad pob oedran, baneri a mwy: www.caweek.org. Cofiwch hefyd rannu hanes yr Wythnos gyda ni, gan ddefnyddio'r hashnod **#WythnosCC24** ar Facebook ac X!

# Ein Gofal am y Greadigaeth

**1. Yr Wythnos Fawr Werdd – 8–16 Mehefin –**
https://greatbiggreenweek.com/.

– Dyma gyfle gwych i drefnu gweithgaredd neu ddigwyddiad a chymryd mantais o raglen ledled Prydain fydd yn denu sylw'r cyfryngau. Gallwch dagio'ch digwyddiad i'r faner hon a gobeithio cael sylw lleol i'ch digwyddiad chi. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r wythnos yn golygu gwneud rhywbeth 'gwyrdd' a denu pobl o'ch cymuned i mewn i rannu'r gweithgaredd a dathlu'r achlysur. Bydd hefyd yn ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod angen i ni i gyd wneud ein rhan dros y blaned.

– Mae yna adnoddau a graffeg y gallwch eu defnyddio, gan gynnwys rhai Cymraeg, sy'n lleihau'r gwaith i chi!

– Mae'n bwysig cofrestru eich digwyddiad er mwyn i'r bobl leol a'r cyfryngau wybod amdano a'i fynychu.

– Mae cronfa ariannol hefyd ar gael yng Nghymru i helpu gyda chost digwyddiadau – manylion ar ein gwefan. Byddai'n wych gweld eglwysi'n cydweithio i drefnu ar y cyd mewn tref neu bentref, gyda chyfres o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos mewn sawl eglwys/capel gwahanol, er enghraifft!

**2. Eglwysi'n Cyfrif Natur 2024 – 8–16 Mehefin –**
https://www.caringforgodsacre.org.uk/love-your-burial-ground-week-national-cemeteries-week-and-churches-count-on-nature/

Yr un wythnos yn union, gallech gynnal gweithgaredd ar eich tir/ eich mynwent yn canolbwyntio ar fyd natur. Gallech wahodd pobl i weld a chyfrif pa adar, anifeiliaid, pryfed, coed a blodau gwyllt sydd yno. Dyma bedwaredd flwyddyn y rhaglen ac fe fyddai'n hyfryd gweld mwy o gapeli ac eglwysi o Gymru'n cymryd rhan eleni. Mae'n agored i unrhyw enwad, felly ewch ati i gynllunio a helpu i gael mwy na'r 36 digwyddiad a gynhaliwyd y llynedd yng Nghymru.

Cofrestrwch ar wefan Caring for God's Acre – https://www.caringforgodsacre.org.uk/get-involved/event-register/ – a byddwch yn derbyn pecyn drwy'r post gydag adnoddau i'ch helpu i adnabod rhywogaethau. Mae pecyn hefyd ar gael yn Gymraeg. Dyma ffordd wych o ddenu plant a phobl ifanc o'r ysgol leol neu grwpiau eraill.

Bydd gwefan Eco Church (cyn bo hir) yn cynnwys straeon gan eglwysi a gymerodd ran y llynedd i'ch ysbrydolil!

**3. Green Church Awards 2024**
Os ydy eich capel neu eich eglwys wedi ymwneud â materion gwyrdd a chynaliadwy, yna ystyriwch gyflwyno cais ar gyfer Green Church Awards 2024 y Church Times: https://www.churchtimes.co.uk/green-church.

Mae saith categori ar gael – manylion ar y wefan. Byddai'n wych gweld cyfran sylweddol o geisiadau o Gymru. Mae A Rocha UK ymhlith y noddwyr, ond nid ydym ar y panel beirniadu. Felly, does dim problem gyda'r ffaith fy mod yn eich annog i geisio!

Y dyddiad cau yw **30 Mehefin**, felly mae tipyn o amser i chi weithio ar rywbeth.


**4. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur –**
https://keepwalestidy.cymru/cy/ein-gwaith/cadwraeth/natur/

Yn olaf ... ewch draw i wefan Cadw Cymru'n Daclus i weld mwy am gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Gallwch wneud cais am becynnau garddio am ddim, yn ôl eich dewis. Os byddwch yn llwyddiannus, yn hytrach nag arian i brynu pethau, byddwch yn derbyn planhigion, offer, pridd ac ati. Mae'n gynllun gwych, gyda rhai capeli ac eglwysi'n rhan ohono eisoes, ond maen nhw'n awyddus i glywed gan ragor ar draws Cymru.

*Delyth Higgins*
*Swyddog Eco Eglwysi Cymru*
*A Rocha UK*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




Pennod 22
Ochr yn ochr ag eraill

### Darlleniad: Galatiaid 6:1–6
'Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist.' (adn. 2)

### Gweddi
Ynghanol wythnos lawn, Arglwydd, rwy'n ymwybodol mor wag y gall bywyd fod. Er fy mod yn medru fforddio mwy nag un pryd y dydd, rwy'n poeni fy mod yn chwilio am drysor mwy na'r hyn sydd yn fy mhoced. Helpa fi heddiw 'i weld pob mab i ti / yn frawd i mi, O Dduw'. Amen.

### Cyflwyniad
Bydd troi at wefan y BMS (Baptist Missionary Society) neu ddarllen un o gyhoeddiadau'r Gymdeithas Genhadol, fel *Engage*, yn siŵr o gynnig enghreifftiau o Gristnogion sydd am fyw'r Gair. Mae'n anodd i amryw ohonom a fagwyd mewn eglwysi traddodiadol eu cymeriad, mewn gwlad sefydlog a diogel, ddychmygu byw mewn tlodi enbyd a phrofi bywyd cwbl ddifreintiedig. Pwy all ddychmygu bywyd Seeta, gwraig a ddatblygodd y gwahanglwyf yn 12 oed? Oherwydd y pothellau a'r drewdod a ddôi ohonynt, roedd ei chyfoedion yn arbennig yn troi eu cefn arni, ac roedd bywyd yn unig, yn ddigyfeiriad ac anobeithiol. Yn ffodus iddi hi, cafodd groeso yn ysbyty Green Pastures yn Pokhara, Nepal, ysbyty oedd yn canolbwyntio ar helpu gwahangleifion.

Yn Nepal yn 2013–2014 ceid 3,223 o wahangleifion, sef wyth o bob mil o bobl, ac mae'r ysbyty hwn, a agorwyd yn 1957, yn cynnig triniaeth a gofal. Bydd yn cefnogi miloedd o bobl â phob math o anableddau, er mai dim ond 40 o welyau sydd yno a hanner y rheini'n arbennig ar gyfer gwahangleifion. Yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty y daeth Seeta i adnabod Iesu ac ymroi i'w wasanaethu. Bellach mae hi'n gweithio yn yr ysbyty ac yn annog y cleifion i ailddarganfod eu hunaniaeth a'u hunan-barch. Bydd yn siopa ac yn coginio drostynt, yn trin eu gwallt ac yn arbennig yn gweddïo gyda hwy. Dywedodd Jeanie Herbert, arweinydd gweithgareddau'r BMS yn Nwyrain Asia, fod gwaith holistig Seeta ym maes gofal iechyd yn 'arddangos cariad Duw wrth helpu ag anghenion dyddiol y cleifion'.

### Myfyrdod
Beth, tybed, yw ein cyfleoedd ni i ddangos cariad Duw? I ba raddau y byddwn yn chwilio am bobl sydd angen cymorth fel y gallwn wneud rhywbeth cadarnhaol, syml, ac eto'n werthfawr yng nghwmni eraill er mwyn dweud eu bod hwythau'n werthfawr? Mae angen i ni ddeall bod ein ffydd yn Iesu yn ein hannog i estyn cwmni, i ddangos parch a gwasanaethu eraill. Mae'n rhyfedd fel y bydd rhai credinwyr yn gweld ffydd yn gyfyngedig i foliant, tra bydd eraill yn ystyried yr agweddau cymdeithasol a dyngarol fel popeth, ac y gellir hepgor oedfa. Onid yw caru Duw yn golygu caru cyd-ddyn?

Roedd Seeta yn gweld pobl debyg iddi hi ei hun ac roedd yn medru uniaethu â hwy yn eu hofnau a'u teimlad o fod yn ddi-werth. Bydd y sawl sydd wedi profi unigrwydd yn medru cadw cwmni gyda'r unig, y sawl a brofodd lesgedd neu a fu drwy boen ysgariad neu alar yn llwyddo'n fwy effeithiol, efallai, na rhywun na chafodd brofiad tebyg. Ynghanol ei thriniaeth y daeth Seeta i adnabod Iesu a phrofi'r ymdeimlad o'i bresenoldeb yn ei bywyd. Nid oes gan Seeta lawer o fanteision y byd hwn, ond mae'n rhannu'r trysor pennaf sydd ganddi er mwyn eraill. Dyma enghraifft arall o 'Fyw'r Gair'.

### Gweddi
Rho imi nerth i wneud fy rhan,
i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Roedd cymdeithas nifer o drefi Môr y Canoldir yn amser Paul yn gymysg o genhedloedd gwahanol. Ond roedd Paul am i aelodau'r eglwysi arfer esiampl dda a pheidio â chamfeirniadu unrhyw un. A fyddwch yn cytuno gydag ef?
2. Ai rheidrwydd neu reddf yw cynorthwyo pobl eraill?
3. Rhowch enghreifftiau o fod yn gynhwysol yn amser Iesu ac yn ein hoes ni.
4. Pe byddech yn cyfarfod â Seeta nawr, beth garech chi ei ofyn iddi?

---

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 28 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Esyllt Maelor

**Sul, 28 Ebrill, am 12yp**
Oedfa dan ofal Gareth Ioan, Caerwedros

---

## CYMANFA GANU UNDEBOL DYFFRYN ABERDÂR



CAPEL GREEN STREET, ABERDÂR
**SUL, MAI 12fed, 2024 am 6.30 p.m.**

Arweinydd: **Wil Morus Jones**
Organydd: **Sheridan George**
Llywydd: **Helen Prosser**

Pris y rhaglen: £2
Cysylltwch â Gwyn a Joyce Morgan
24 Bryn Onnen, Penderyn
01685 814348 neu
gwyn.morgan4@btinternet.com

# Pesach: Swper yr Arglwydd

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig Pesach, Swper yr Arglwydd, ar nos Iau Cablyd, 28 Mawrth yng nghapel Annibynwyr Ebeneser, Hen Golwyn. Diolchwyd i bawb am gymryd rhan yn ystod y gwasanaeth. Cawsom noson fendithiol iawn gyda'n gilydd fel gwahanol enwadau. Gosodwyd y bwrdd er mwyn dangos y darnau arbennig o fwyd ar gyfer y pryd Seder. Ar ddiwedd y gwasanaeth fe weinyddwyd y Cymun Sanctaidd gan y Parchedig Helen Wyn Jones.

## Gŵyl y Pasg

Mae gan Swper yr Arglwydd, neu'r Cymun Sanctaidd ei wreiddiau yn ddwfn yn un o wyliau mawr yr Iddewon, sef gŵyl y Pasg (Passover). Dyma'r ŵyl roedd Iesu a'i ddisgyblion yn dathlu yn yr oruwch ystafell yn Jerwsalem ychydig oriau cyn iddo gael ei groeshoelio. Roedd gŵyl y Pasg yn cael ei dathlu ers tair mil o flynyddoedd.

## Allan o'r Aifft

Cawn yr hanes gyntaf pan arweiniodd Moses y genedl Israel allan o'r Aifft. Mae'r gair Pasg yn dod o'r Hebraeg sef *Pesach* sy'n golygu mynd heibio. Mae'n cyfeirio at gyfnod y degfed pla yn yr Aifft, sef lladd y cyntaf-anedig, pan aeth Duw heibio i dai'r caethweision Hebraeg oedd â gwaed oen wedi taenu ar byst eu drysau. Ar ôl y pla olaf caniatawyd i'r caethweision adael yr Aifft. Ers y digwyddiadau hyn, mae'r Iddewon ar draws y byd wedi dathlu'r Pasg er mwyn cofio eu rhyddhau o gaethiwed.






## Nos Iau Cablyd

Ar drothwy'r Groglith, a hynny ar nos Iau Cablyd, edrychwn ninnau'n ôl at ein gwreiddiau cyn belled ag y mae'r Cymun yn bod. Gŵyl y Pasg oedd cefndir i'r pryd olaf a fwytaodd Iesu gyda'i ddisgyblion cyn ei groeshoelio. Ond defnyddiodd Iesu y bara a'r gwin yn ystod y swper fel symbolau o'i farwolaeth ar y groes.

Ar noson gyntaf a'r ail o'r Pasg mae'r teulu Iddewig yn dod at ei gilydd er mwyn dathlu'r Pasg gyda phryd arbennig. Seder yw'r gair Hebraeg am y pryd arbennig hwn sy'n golygu trefn. Roedd y bwrdd wedi ei osod gan gynnwys darnau arbennig o fwyd, rhai i'w bwyta ac eraill i edrych arnynt. Mae'r rhai i'w bwyta yn cynnwys perlysiau chwerw er mwyn cofio chwerwder y caethwasiaeth, past melys fel symbol o forter a ddefnyddiwyd gan yr Hebreaid. Dŵr halen i gynrychioli'r dagrau a gollwyd yn yr Aifft. Perlysiau gwyrdd, y dail yn symboleiddio rhyddid, y coes yn chwerw yn symbol o gaethwasiaeth.

Hefyd y mae dau ddarn o fwyd i edrych arnynt sef asgwrn, rhan o goes wedi ei rostio sy'n symbol o'r oen a aberthwyd yn y deml. Mae hyn yn ein hatgoffa o'r Proffwyd Eseia yn cyfeirio at Iesu fel 'Wele Oen Duw, a aeth i'r lladdfa yn ein lle.' Gwelir hefyd wy wedi ei ferwi'n galed yn symbol o fywyd newydd sef neges y Pasg i'r Cristion. Drwy gydol yr ŵyl mae Matzah, bara dilefain yn cael ei fwyta yn lle'r bara arferol. Gwneir hyn er cof am bobi'r toes na chafodd gyfle i godi pan fu'n rhaid i'r Hebreaid ffoi o'r Aifft. Glanheir y cartref rhai wythnosau cyn y Pasg, ac mae'r gegin yn cael ei glanhau'n drylwyr iawn. (Tybed a'i dyma yw tarddiad yr arferiad o *spring cleaning*?)

## Golchi

Y bwyd cyntaf a fwyteir yw'r tamaid o bersli a thamaid o fara. Cyn bwyta bydd pawb yn golchi dwylo mewn powlen wedi'i gosod o'u blaenau. Gyda'r weithred hon o olchi dwylo, atgoffir y Cristion o olchi arall, sef Iesu Grist yn golchi traed y disgyblion yn yr oruwch ystafell ar nos Iau Cablyd (Ioan:13:4 -9, 12–15). Yn yr oruwch ystafell cymerodd Iesu fara ac wedi diolch fe'i torrodd. Aeth ymlaen i egluro ystyr y bara iddo ef gan ddweud, 'Hwn yw fy nghorff, sy'n cael ei dorri er eich mwyn chwi.' Yna fe gymerodd y cwpan gan ddweud, 'Y cwpan hwn yw'r Cyfamod Newydd yn fy ngwaed i. Yfwch o'r cwpan hwn a gwnewch hyn er cof amdanaf.'

**Parchg Helen Wyn Jones**

# Golygyddol

## Cwm Nant Gwrtheyrn

Yr wythnos ddiwethaf cefais y fraint o gymryd rhan ddwywaith yn encil gweinidogion yr Annibynwyr yn Nant Gwrtheyrn. (Rhyfedd o fyd wrth gofio am chwedl chwerw ramantus Meinir a Rhys bod cymaint o briodasau bellach yn cael eu cynnal ar y safle trawiadol hwn.) Hyfryd iawn a bendithiol oedd cael cyfarfod â'n gilydd fel chwiorydd a brodyr yn y weinidogaeth i ymlacio, cymdeithasu, dysgu a thrafod. Diolch i bawb am eu cwmnïaeth ac am yr hwyl a gafwyd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Parchg Carwyn Siddall am yr holl waith trefnu effeithiol a gyflawnwyd ganddo ac i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am eu nawdd ariannol.



### Darlith goffa

Fy ngorchwyl cyntaf oedd traddodi darlith goffa Dr Pennar Davies a Dr R. Tudur Jones. Teitl y ddarlith oedd 'Y Cyfnod Allweddol'. Ystyriais hon yn fraint arbennig iawn ac ymdeimlais â'm hannigonolrwydd fy hun wrth fod yn ymwybodol o ysgolheictod a deallusrwydd y ddau Dr yr oeddem yn cofio yn annwyl amdanynt. Cynnwys y ddarlith oedd olrhain rhai o'r datblygiadau fu yn y cyrff ymneilltuol yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a olygodd eu bod wedi newid o fod yn sectyddol eu naws i fod yn enwadol. Canolbwyntiais yn benodol ar y newidiadau fu yn y ddisgyblaeth eglwysig a'r rhesymau pam y llaciodd hon yn enwedig yn ail hanner y ganrif.

### Cenhadaeth

Yr ail orchwyl a gefais – ar y dydd Gwener – oedd arwain seminar ar bwnc sydd yn agos at galon pob un o weinidog Iesu Grist. Testun y sesiwn oedd, 'Ein dealltwriaeth o genhadaeth ac efengylu'. Mae hwn yn bwnc eithriadol o bwysig ac yn un a ddylai fod yn flaenoriaeth ar agenda yr Undeb a phob un o'n cynulleidfaoedd yn y dyddiau hesb hyn. Argyfwng mawr ar hyn o bryd yw bod cyn lleied o bobl yn dod i ffydd yn Iesu a'n bod ninnau mor aneffeithiol yn y gwaith o fod yn enillgar. Siaradais am ein cenhadaeth leol fel cynulleidfaoedd ac mai nod y gwaith hwn yw cyflwyno Iesu a'i deyrnas i bobl Cymru. Afraid dweud yn yr hinsawdd ysbrydol presennol mai prif angen ein heglwysi yw i bobl newydd ddod i ffydd yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr gan fyw fel disgyblion iddo yn ein plith. Y mae pobl newydd yn dod a bywyd, syniadau a gweledigaeth ffres.

### Amddiffyn

Bu amser pan oeddem fel eglwysi rhywsut yn amddiffyn yr hyn oedd gennym o ran strwythurau, traddodiadau, adeiladau a dull o weithredu. Ond bellach daeth y dyddiau hynny i ben a rhaid symud ymlaen o dan arweiniad yr Ysbryd Glân a'r gair – gan ddiolch am yr hyn a fu – ond gan fod yn hyderus bod Duw yn dal i weithio yn ein plith fel cenedl y Cymry. Nid ein traddodiadau ymneilltuol sy'n bwysig ond y newyddion da (Efengyl) am Iesu sydd yn ein meddiant. Os gwnawn ein priod waith o rannu a byw y newyddion da fe fydd y darnau eraill yn syrthio i'w lle dan fendith yr Arglwydd. Fwy na thebyg fe syrthiant mewn ffurfiau gwahanol i'r hyn a fu yn y gorffennol ond yn y patrymau newydd fe fydd bywyd ac egni.


Rhaid meddwl am weithgareddau amgen; rhaid ystyried sut y gallwn wasanaethu ein cymunedau; mae angen canfod ffyrdd i bontio gyda theuluoedd a sefydliadau lleol. Mewn rhai mannau bydd rhaid cychwyn cynulleidfaoedd newydd sbon gan fod y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg wedi darfod. Ond y peth ydy, gyda Duw o'n plaid, Iesu yn Arglwydd a'r Ysbryd Glân yn rym nerthol ni allwn ond llwyddo yn ein cenhadaeth. Oni ddywedodd Paul rywbeth i'r cyfeiriad hwn yn ei lythyr at y Rhufeiniaid?

> 31 Felly, beth mae hyn yn ei olygu?
> Os ydy Duw ar ein hochr ni, sdim
> ots pwy sy'n ein herbyn ni! 32 Wnaeth
> Duw ddim hyd yn oed arbed ei Fab
> ei hun! Rhoddodd e'n aberth i farw
> yn ein lle ni i gyd. Felly oes yna
> unrhyw beth dydy e ddim yn fodlon
> ei roi i ni? 33 Pwy sy'n mynd i
> gyhuddo'r bobl mae Duw wedi'u
> dewis iddo'i hun? Wnaiff Duw ddim!

(Rhufeiniaid 8: 31–3)

**Alun Tudur**

# Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin




Bu'r Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Ddewi dros ginio blasus yng Nghaffi Beca, Efailwen, dydd Mawrth, 19 Mawrth. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn gan ein siaradwr gwadd, y Bonheddwr Hefin Wyn am hanes Twm Carnabwth a brwydr y tollbyrth yn Efailwen ac yng Nghaerfyrddin.

Braf oedd cael cwmni gor nai Jac Tyisha, sef Mr Brin Enoch, un o ddiaconiaid eglwys Heol Awst. Gwyddai'n dda am hanes ei hen-wncwl (brawd ei fam-gu) yn cael ei alltudio i Tasmania am ei ran yn nherfysg Beca yng Nghwm Gwendraeth.

Dyma lun o Hefin Wyn yn cyflwyno ei lyfr *Ar Drywydd Twm Carnabwth* i Mr Brin Enoch. Bydd Brin yn dathlu ei ganfed pen-blwydd yn ddiweddarach eleni. Cafwyd prynhawn dymunol a bendithiol iawn yng nghwmni ein gilydd.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Gwaelod-y-garth



*Aelodau Cwrdd Merched, Bethlehem, Gwaelod-y-garth, fu'n cynnal yr oedfa Sul Gweddi'r Byd eto eleni*



*Trefnwyd ac arweiniwyd yr oedfa gan Eirlys Davies, Radur – un o'r aelodaf mwyaf gweithgar yn ein plith. Ond roedd syrpreis yn aros Eirlys yn y festri wedi'r cwrdd. Hi yw'r unig aelod ym Methlehem sy'n dathlu ei phen-blwydd ar 29 Chwefror. Cewch chi ddyfalu beth yw ei hoed, o'r gacen gan Marian Ifans, neu o wybod mai dim ond 20 dathliad go iawn mae Eirlys wedi eu profi!*



**Dydd Sul, Mai 19eg, 2024 am 2.00**

## Tabernacl – Hendy-gwyn
## Oedfa i ddathlu
## 150 mlynedd

Pregethwr gwadd –
Parch. Dyfrig Rees

Croeso cynnes i bawb

## Gweinidogaeth

Rydym yn chwilio am weinidog rhan-amser i weinidogaethu ar gapeli Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.

Derbynnir ceisiadau drwy law
Mrs Jennifer Hughes, Efail Newydd,
Llangadog, Sir Gâr
SA19 9BU
neu drwy e-bost:
jen60@hotmail.co.uk



*Aelodau o ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin a chyfeillion yn cario'r groes i gopa Bryn Myrddin ar bnawn Gwener y Groglith*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*